| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **10 MAWRTH 2014** |
| **TEITL:** | **DIWEDDARU POLISI COLLFARNNAU PERTHNASOL MEWN PERTHYNAS A TRWYDDEDU GYRWYR TACSI** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CEFNDIR

1.1 Fe wyddoch ein bod fel Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau ar gollfarnau perthnasol fel rhan o'r Polisi Tacsis beth amser yn ôl.(gweler Atodiad 1) Mae'r canllawiau hyn wedi bod yn cael eu defnyddio gan y swyddogion, ac gennych chwi fel aelodau i'n cynorthwyo wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau gyrwyr gan unigolion sydd gyda collfarnau perthnasol ar eu adroddiad DBS. Dros y misoedd diwethaf, rydym fel Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi bod yn adolygu ein canllawiau mewn perthynas a collfarnau perthnasol; ac wedi penderfynu drwy'r Panel Technegol Trwyddedu, gynnig diweddariad sydd yn briodol i sefyllfaoedd cyfredol yn y maes trwyddedu tacsis. (Atodiad 2)

1.2 Diben y polisi hwn yw rhoi canllawiau ar y meini prawf a ystyrir gan y Cyngor wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeilydd trwydded presennol yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr/gweithredwr cerbyd hurio preifat ac/neu gerbyd hacni. Fe fyddai mabwysiadu y canllawiau diwygiedig yma yn sicrhau cysondeb gyda Siroedd eraill.

1.3 Nod y polisi hwn yw diogelu'r cyhoedd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn awyddus i sicrhau:

- Bod unigolyn yn unigolyn addas a phriodol;
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd;
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest;
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu;
- Bod pobl bregus wedi'u diogelu;
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

1.4 Mae'r polisi hwn yn ceisio rhoi arweiniad i unrhyw un a chanddo ddiddordeb mewn trwyddedau hurio cyhoeddus a phreifat. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys y canlynol ymhlith eraill:

- Ymgeiswyr am drwyddedau gyrru / gweithredu
- Gyrwyr / gweithredwyr sydd eisoes yn drwyddedig y mae eu trwyddedau yn cael eu hadolygu
- Swyddogion Trwyddedu a'r Heddlu
- Aelodau'r Pwyllgor/Panel Trwyddedu
- Ynadon a Llys y Goron, wrth wrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau lleol

1.5 Os bydd gan swyddogion trwyddedu bwerau dirprwyedig mewn perthynas â thrwyddedau hurio preifat/cerbyd hacni, byddant yn defnyddio'r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniad i roi trwydded. Ym mhob achos arall, cyfeirir ceisiadau am drwyddedau i sylw'r Is - Bwyllgorl Trwyddedu. Er y bydd swyddogion a'r is - pwyllgor yn rhoi sylw i'r canllawiau yn y polisi, **bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol**, a lle bydd amgylchiadau'n gofyn am hynny, caiff y pwyllgor/swyddog wyro oddi wrth y canllawiau hynny.

1.6 Os na fydd ymgeiswyr yn datgelu unrhyw gollfarnau; rhybuddiadau; rhybuddion; hysbysiadau cosb, gorchmynion neu geryddon blaenorol ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achosion llys yn yr arfaeth neu faterion eraill, fe'u cyfeirir i sylw'r Is - Bwyllgor Trwyddedu er mwyn gwneud penderfyniad yn eu cylch.

**ARGYMHELLIAD**

**Fod y Pwyllgor yn derbyn y diweddariad i'r canllawiau collfarnau perthnasol; a fydd yn cael ei fabwysiadu gan y Pwyllgor hwn pan fydd y Polisi Trwyddedu Tacsi yn cael ei adolygu yn ei gyfanrwydd.**